# Mae mwy iddi

## gan Myrddin ap Dafydd

Mab yntau merch? sydd ar ein clyw –
Ond mae mwy iddi wrth drafod rhyw.

Mae'r fuwch yn cael llo ac mae'r iâr yn cael cyw –
Ond mae mwy iddi wrth drafod rhyw.

Mae'n rhaid atgenhedlu er mwyn inni fyw –
Ond mae mwy iddi wrth drafod rhyw.

Tu mewn i ddynes mae croth ac mae wy;
Tu mewn i ddynion mae eu hadau hwy.

Tu mewn i'r ddau, dwy galon yn un
Sy'n fwy na rhyw ar ei ben ei hun.



Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd

Cynllun Ysgolion
Iach Gwynedd